# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2017

Amser: 09.00 - 09.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3943

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Dai Lloyd AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jessica England (Dirprwy Glerc)<br>Sam Mason (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 303KB) Gweld fel HTML (103KB)

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-718 Cyflogau GIG Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd i ofyn ei farn ar y wybodaeth a gafwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

## 2.2 P-05-723 Sefydlu System Bleidleisio Cynrychiolaeth Gyfrannol ar gyfer Etholiadau Cynghorau Lleol Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ohirio ei thrafodaethau tan fod y gwaith o graffu ar Fil Cymru wedi'i gwblhau, ac i ystyried safbwyntiau manwl y deisebydd ar y cam hwnnw.

## 2.3 P-05-729 Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i ofyn a oes asesiad llawn wedi'i gyflawni o effaith cyflwyno terfyn cyflymder newidiol, a gofyn iddo rannu unrhyw ganfyddiadau â'r Pwyllgor.

## 2.4 P-05-730 Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol er mwyn gofyn a fyddai'r deisebwyr yn gallu cyfrannu at y broses o ddatblygu cynigion i ddiwygio llywodraeth leol, ac os felly, sut.

## 2.5 P-05-731 Gwerthu Tir a Lonydd Mynediad yn Abercwmboi

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb gan y deisebydd cyn penderfynu pa gamau i'w cymryd ynglŷn â'r mater.

### 2.6 P-05-732 Amseroedd Aros Annerbyniol ar gyfer Cleifion y GIG yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys Wrecsam/Ysbyty Wrecsam Maelor

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb gan y deisebydd, ac i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofyn pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella amseroedd aros yr adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam.

### 2.7 P-05-733 Dim gweithredu pellach ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) yng Nghymru o gwbl

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am farn y deisebydd ar ymateb Llywodraeth Cymru cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach ynglŷn â'r mater hwn.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-479 Deiseb Adran Pelydr-X ac Uned Mân Anafiadau Ysbyty Tywyn

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ddiweddaraf gan y deisebydd gan fynegi siom na gafwyd ymateb i'r ohebiaeth flaenorol a anfonwyd at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu eto at y Bwrdd Iechyd, gan geisio:

- ei ymateb i'r sylwadau diweddaraf gan y deisebydd, a;
- gwybodaeth am fynediad i wasanaethau mân anafiadau yn ardal Tywyn, gan gynnwys y tu allan i oriau agor Ysbyty Tywyn.

### 3.2 P-04-621 Cadw'r Uned Famolaeth dan Arweiniad Ymgynghorwyr yn Ysbyty Glan Clwyd ar Agor

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i gau'r ddeiseb gan fod y deisebydd bellach wedi cadarnhau, gan na chyflwynwyd y newidiadau arfaethedig y rhoddwyd sylw iddynt yn y ddeiseb, ei bod yn fodlon bod canlyniad derbyniol wedi'i sicrhau ar y mater.

## 3.3 P-04-663 Bwyd yn Ysbytai Cymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a chytunodd i aros am adroddiad y Pwyllgor ar arlwyo mewn ysbytai a maeth cleifion, ac i geisio barn y deisebydd ar ôl hynny.

## 3.4 P-04-676 Creu Pencampwr yr Iaith Gymraeg mewn Cymunedau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'r deisebydd a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am ei gyfraniad. Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor i rannu'r cynnig a wnaed gan y deisebydd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu pencampwyr iaith cymunedol gyda Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru.

## 3.5 P-04-681 Caniatáu i'r Cyhoedd Recordio Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a chytunodd i ofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae'n bwriadu mynd ati i orfodi'r drefn o recordio trafodion.

## 3.6 P-05-728 Diogelu Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf

Trafododd y Pwyllgor sylwadau gan y deisebydd a chytunodd i gau'r ddeiseb ar y sail y bydd y gyllideb ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chynnal ar gyfer 2017-2018.

## 3.7 P-05-721 Deiseb Terfyn Cyflymder Penegoes

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y deisebydd a chytunodd i rannu canlyniadau'r cynllun monitro traffig gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, gan ofyn am ei sylwadau a gofyn a allai'r wybodaeth hon gael ei hystyried fel rhan o'r gwaith parhaus ar ddiogelwch y darn hwn o'r ffordd.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

5 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari (prawf gwaed CA125)

6 Blaenraglen Waith